

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 12 Tachwedd 2014

**Preseanol:** Yr Athro P Spencer (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr D Fordham, Ms L Fowle, Mr A Jones, Mr W Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr D Owen, Mrs E Parry Williams, Ms E Riches, Dr H Roberts, Mr S Roberts, Yr Athro C Tully, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Yr Athro J Hughes, Mrs L Meadows, Yr Athro D Shepherd, Mr E Roberts, Mr R Taylor.

#### 442. NODIADAU CYN Y CYFARFOD:

Dywedwyd bod yr Athro P Spencer wedi'i benodi gan y Cyngor yn Gadeirydd newydd Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Brifysgol. Diolchodd Yr Athro Spencer i Dr D Assinder am ei waith fel y Cadeirydd blaenorol.

Croesawyd Mrs E Parry Williams fel y cynrychiolydd newydd iechyd a diogelwch dros y Cyngor.

Yn dilyn ei ymddeoliad fis Hydref, diolchwyd i Joe Patton, Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol, am ei ymdrechion a'i ymroddiad yn cynorthwyo a chefnogi staff.

#### 443. COFNODION

Cymerwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai 2014 wedi'u darllen, eu cadarnhau a'u llofnodi..

#### 444. MATERION YN CODI

a) Cofnod 437 (a) Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol:  
Nodwyd bod angen Cadeirydd newydd i'r Is-bwyllgor ac y rhoddir sylw i hynny cyn y cyfarfod nesaf.

**GWEITHREDU: DF**

b) Cofnod 439 Polisi ar Ddeifio:  
Cadarnhawyd y gwnaed mân newidiadau i'r Polisi ar Ddeifio fel y gofynnwyd a bod y Polisi'n gyfredol erbyn hyn.

c) Cofnod 441(ii) Trefniadau Diogelwch:  
Dywedwyd bod gwaith i wella trefniadau diogelwch yn dilyn yr achos o dorri i mewn i'r Ysgol Peirianeg Electronig yn agosáu at gael ei orffen.

#### 445. ADRODDIAD AR FARWOLAETH DRASIG IAN NICHOLLS

Cafwyd gwybodaeth ar ddatblygiad ymchwiliad yr HSE i farwolaeth drasig Ian Nicholls. Darperir adroddiad pellach pan fydd ymchwiliad yr HSE wedi'i orffen.

#### 446. GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. *Dinygio'r Aelodaeth*: Yn dilyn ymddeoliad y Cofrestrydd mae'r Cofrestrydd Academaidd wedi cael ei benodi'n Gadeirydd a diwygiwyd aelodaeth y Grŵp Tasg.
- ii. *Polisi Iechyd a Diogelwch*: Nodwyd bod aelodaeth y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch wedi'i ddiwygio, i adlewyrchu newidiadau diweddar i swyddogaethau a theitlau. Bydd Ordinhad y Brifysgol yn cael ei ddiwygio yn y dyfodol ac yn dilyn adolygiad o'r Polisi llawn yn 2015.

#### GWEITHREDU: DF/KM

- iii. *Adrodd am ddigynyddiadau a allai fod wedi achosi damwain*: Mae gwaith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog rhoi gwybod am ddigynyddiadau a allai fod wedi achosi damwain a chlориannu hynny wedyn.
- iv. *Gynau a Gynau Ffug ar Eiddo'r Brifysgol*: Dywedwyd bod trefniadau presennol yn cael eu hadolygu a rhagwelir trefniadau diwygiedig i ddelio ag eitemau amheus.
- v. *Canllawiau i Aelodau'r Cyngor a Deoniaid Colegau*: Cytunwyd ar y Canllaw i'r Cyngor a chaiff ei ymgorffori o fewn y ddogfen wybodaeth fwy i aelodau'r Cyngor. Mae angen gwneud rhai newidiadau i'r Canllaw i Ddeoniaid Colegau cyn iddo gael ei roi i'r Deoniaid.

#### GWEITHREDU: GWJ

- vi. *Trefniadau i reoli pryderon ynghylch Ebola*: Yn unol â threfniadau'r Brifysgol i gynllunio at argyfwng, mae grŵp wedi'i sefydlu i ystyried a goruchwylio trefniadau'r Brifysgol mewn ymateb i fygythiad Ebola posibl.

#### 447. DIWYGIADAU POLISI

- i. Polisi ar ddefnyddio Systemau Gwasgedd yn ddiogel: Cymeradwywyd y Polisi hwn a oedd yn disodli Nodyn Canllaw OHSU G12 ar ddefnyddio Systemau Gwasgedd yn ddiogel.
- ii. Polisi ar ddefnyddio cyfrifiaduron yn ddiogel: Cymeradwywyd y Polisi diwygiedig hwn, a oedd yn disodli Polisi 2008 ar Offer Sgrin Arddangos.

#### 448. ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD IECHYD A DIOGELWCH O GLYBIAU A CHYMDEITHASAU UNDEB Y MYFYRWYR

Cyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad iechyd a diogelwch diweddar o glybiau Undeb y Myfyrwyr.

Yn dilyn sefydlu trefn aelodaeth am ddim, nodwyd y bu cynnydd sylweddol yn niferoedd aelodau ac yn nifer y clybiau a chymdeithasau. Ar hyn o bryd mae oddeutu 8000 o aelodau ac, ers yr adolygiad, mae niferoedd y clybiau wedi cynyddu o 47 i 56 a nifer y cymdeithasau o 58 i 90.

Darganfu'r adolygiad bod 'safon rheoli iechyd a diogelwch yn y clybiau a'r cymdeithasau a aseswyd yn rhagorol yn gyffredinol, gyda nifer o welliannau ac argymhellion yn cael eu gwneud i wella dulliau gweithredu da ymhellach.'

Cafodd tîm Undeb y Myfyrwyr, yn arbennig y Cydlynnydd Datblygu Clybiau a Chymdeithasau a'r Swyddogion Sabothol, eu canmol am eu hymdrechion a'u hymroddiad i gefnogi gweithgareddau clybiau a chymdeithasau.

Nodwyd bod Undeb y Myfyrwyr wedi cyflwyno Cynllun Gweithredu i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch gyda llawer o'r camau gweithredu eisoes wedi'u cwblhau.

#### 449. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD

Cyflwynwyd adroddiad byr gyda'r eitemau allweddol a ganlyn yn cael eu nodi:

- i. *Cyllideb*: Yn dilyn pennu cyllideb 2014/15, mae'r Adran Ystadau a Chyfleusterau'n ymgymryd â monitro ac archwilio manylach ar gyfer y meysydd nas cyllidwyd.
- ii. *Gweithgor Mynediad Corfforol*: Mae swm sylweddol pellach wedi'i bennu i wella hygyrchedd ar draws yr ystâd.
- iii. *Adolygiad Archwiliwr Allanol*: Bydd gwaith yn dechrau'n fuan i roi sylw i'r camau gweithredu a nodwyd gan yr Adolygiad.
- iv. *Prif Brojectau*: Cafodd y Pwyllgor ei sicrhau bod iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n ddigonol gan y prif gontractwyr ar yr holl brif brojectau adeiladu. Lle nodwyd meysydd y gellid eu gwella, rhoddwyd gwybod am hynny i'r contractwyr. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau amser i gwblhau rhai o'r brojectau hyn, cytunwyd y bydd Ystadau'n ysgrifennu at y prif gontractwyr i'w hatgoffa o'r angen i weithredu safleoedd diogel.

**GWEITHREDU: Y&C**

- v. *Parcio Ceir*: Mae cynlluniau ar y gweill i roi sylw i faterion yn ymwneud â pharcio ceir ar draws yr ystâd, yn cynnwys:
  - a) Rheolaeth dynnach ar nifer y trwyddedau parcio a roddir i gontractwyr.
  - b) Mwy o fonitro ar ddefnydd meysydd parcio.
  - c) Gweithredu'n gadarn os gwelir nad oes gan gerbydau drwyddedau neu eu bod wedi'u parcio'n amhriodol.
  - d) Darparu lle parcio ychwanegol ar safle uchaf y Normal.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn lle nodwyd pryderon ynghylch parcio amhriodol ar Safle'r Gwyddorau yn ystod Dyddiau Agored ac ar Safle'r Normal pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer parcio gan Glwb Pêl-droed Dinas Bangor. Cytunodd yr Adran Ystadau a Chyfleusterau i ymchwilio i'r materion a godwyd.

**GWEITHREDU: Y&C**

#### 450. ADRODDIAD AR GOLEG BANGOR YN TSIENA

Rhoddwyd adroddiad ar drefniadau iechyd a diogelwch Coleg Bangor yn Tsiena. Nodwyd bod yr adroddiad, fel y cafodd ei gynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor, yn grynodeb o bapur mwy manwl a baratowyd yn gynharach ar gyfer sefydlu ac agor Coleg Bangor yn Tsiena.

Yn arbennig, nodwyd bod y sefydliad partner yn cael ei ystyried yn 'endid cyfreithiol' dan gyfraith Tsieinaidd. Mae'r dynodiad hwn, a nodwyd yn y Cytundeb Gweithredu, yn golygu mai'r sefydliad partner, dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch Tsieinaidd, sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros les y staff a'r myfyrwyr.

Cadarnhawyd y bydd y trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu datblygu ymhellach cyn gynted ag y bydd Dirprwy Ddeon newydd y Coleg, aelod o staff Bangor, yn dechrau yn ei swydd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon iechyd a diogelwch o bwys.

**GWEITHREDU: GWJ**

#### 451. UNRHYW FATER ARALL

Dim.